Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Friars**
**Lon y Bryn**
**Bangor**
**Gwynedd**
**LL57 2LN**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Friars

Mae Ysgol Friars yn ysgol gyfun gymysg, ddwyieithog, i ddisgyblion 11-18 oed, a gynhelir gan awdurdod lleol Gwynedd. Mae 1,234 o ddisgyblion ar y gofrestr, o gymharu â 1,328 o ddisgyblion pan arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym Medi 2011. Mae 211 o ddisgyblion yn y chweched dosbarth.

Mae'r ysgol yn gwasanaethu dinas Bangor, sy'n ddinas brifysgol, a'r ardal gyfagos. Mae tuag 11% o ddisgyblion yn byw mewn ardaloedd sydd ymhlith yr 20% mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae ychydig dros 12% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n is na chyfartaledd Cymru ar gyfer ysgolion uwchradd, sef 17%.

Daw'r rhan fwyaf o ddisgyblion o gartrefi Saesneg eu hiaith. Fodd bynnag, mae bron i 70% o'r disgyblion yn gallu siarad Cymraeg i ryw raddau ac mae tuag 16% o ddisgyblion yn rhugl yn y Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae 14% o ddisgyblion yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Mae'r disgyblion a dderbynnir i'r ysgol yn cynrychioli'r ystod gallu llawn. Mae gan 21% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol ac mae gan 2% o ddisgyblion ddatganiadau o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ddau ffigur hyn gerllaw'r cyfartaleddau cenedlaethol.

Ymgymerodd y pennaeth â'i swydd ym 1997. Mae'r uwch dîm arwain yn cynnwys y pennaeth, dau ddirprwy bennaeth a thri phennaeth cynorthwyol.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn ysgol arloesi ac mae'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i fwrw ymlaen â datblygiadau'n gysylltiedig â'r cwricwlwm.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae Ysgol Friars yn ysgol sy'n canolbwyntio'n fanwl ar sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni'n dda ac yn ennill y cymwysterau a'r profiad i'w galluogi i ddatblygu ymhellach mewn bywyd. Mae'n gosod disgwyliadau uchel o ran ymddygiad disgyblion, eu hagweddau at ddysgu a safon eu gwaith yn arbennig o effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac mae llawer ohonynt yn ddysgwyr ymroddedig sy'n gwneud cynnydd cadarn yn eu hastudiaethau ac yn dangos uchelgais glir.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn benodol, mae arweinwyr wedi gweithio'n effeithiol i sicrhau gwell deilliannau a darpariaeth i ddisgyblion. Nodwedd amlwg yw ansawdd cyson uchel yr addysgu ar draws yr ysgol. Mae arweinwyr ar bob lefel yn deall cryfderau'r ysgol a'i gwendidau yn dda, a'r hyn y mae angen ei wneud i sicrhau gwelliant pellach.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella'r ddarpariaeth o ran toiledau disgyblion a sicrhau bod nifer digonol o doiledau ar gyfer nifer y disgyblion

A2 Sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn cyfateb i alluoedd pob disgybl a'u profiad academaidd blaenorol o'r iaith

A3 Sicrhau bod hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella yn gyson gryf ar draws yr ysgol, bod gweithgareddau'n canolbwyntio'n briodol ar fedrau disgyblion a bod arweinwyr yn rhoi ystyriaeth ddigonol i farn disgyblion am amrywiaeth o faterion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf yn gyson ac yn cyflawni'n dda ar gyfer eu hoedran a'u gallu. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae perfformiad yr ysgol yn y rhan fwyaf o'r prif ddangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 wedi cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg.

Mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o gysyniadau allweddol yn eu pynciau ac yn adalw dysgu blaenorol yn gywir. Maent yn cymhwyso'u medrau a'u gwybodaeth yn effeithiol i gysyniadau newydd, er enghraifft pan fyddant yn cyfuno'u dealltwriaeth o briodweddau trionglau ac algebra i gyfrifo onglau. Mae gallu llawer o ddisgyblion i gymhwyso'u medrau ar draws y cwricwlwm a llunio cysylltiadau craff rhwng meysydd pwnc gwahanol yn nodweddion amlwg. Er enghraifft deallant sut gall y gair 'primary' yn Saesneg gael ei ddefnyddio i ddisgrifio lliwiau mewn celf a dosbarthu ffynonellau gwybodaeth mewn hanes. Yn yr un modd, maent yn llunio cysylltiadau rhwng geirfa gerddorol a gramadegol, fel 'conjunct' a 'conjunction'.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwrando'n astud a chyda pharch ar oedolion a'u cymheiriaid. Mae llawer ohonynt yn siarad yn hyderus ac yn rhugl pan fyddant yn gweithio mewn parau neu mewn grwpiau bychain. Maent yn cynnig ymatebion ystyriol wrth drafod y dadleuon o blaid ac yn erbyn dienyddio Brenin Siarl y Iaf, er enghraifft. Fodd bynnag, yn gyffredinol, mae disgyblion yn llai hyderus wrth siarad gerbron y dosbarth cyfan ac mae ychydig ohonynt yn amharod i gyfrannu at drafodaethau dosbarth.

Mae medrau darllen disgyblion yn gryfder i'r ysgol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dod o hyd i wybodaeth yn effeithlon ac mae llawer ohonynt yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau darllen, fel cip-ddarllen a bras-ddarllen, yn hyfedr ac yn y cyd-destun priodol. Mae llawer ohonynt yn dadansoddi testunau ac yn dod i gasgliad ynghylch yr ystyr yn dda, ac mae mwyafrif ohonynt yn cynnwys dyfyniadau'n fedrus wrth esbonio'u pwyntiau. Er enghraifft, mae myfyrwyr chweched dosbarth yn arbennig o sensitif yn eu dadansoddiad o nofel Charlotte Bronte, 'Jane Eyre', ac maent yn llunio cysylltiadau deallus rhwng y testun a'i gyd-destun hanesyddol. Mae mwyafrif o ddisgyblion hefyd yn gallu adnabod safbwyntiau gwrthgyferbyniol mewn testunau yn fedrus ac wedyn defnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi gwahanol ochrau dadl, er enghraifft pan fyddant yn trafod safbwyntiau llythrenolwyr ac anllythrenolwyr am y cread neu farn haneswyr gwahanol am y Ludiaid.

Mae llawer o ddisgyblion o bob rhan o'r ystod gallu yn llunio darnau o waith ysgrifennu estynedig trefnus mewn amrywiaeth o bynciau. Mae ganddynt eirfa gyffredinol eang a defnyddiant eirfa sy'n benodol i'r pwnc yn briodol. Er enghraifft, mewn daearyddiaeth, maent yn ysgrifennu'n ffeithiol ac yn ddadansoddol am ecosystemau a bioamrywiaeth wahanol ardal o dir lleol sydd wedi'i adael heb ei drin. Yn ogystal, mae llawer ohonynt yn dangos dealltwriaeth gadarn o dôn a chywair. Wrth siarad ac ysgrifennu, maent yn dewis eu geiriau yn feddylgar ac yn addasu'u hiaith yn addas i ddibenion a chynulleidfaoedd gwahanol yn ddeheuig.

Mae mwyafrif o ddisgyblion yn gwella cywirdeb eu gwaith yn effeithiol o ganlyniad i brawf-ddarllen gofalus. Fodd bynnag, mae ychydig ddisgyblion yn gwneud camgymeriadau sillafu mynych ac nid ydynt yn paragraffu nac yn atalnodi eu gwaith ysgrifenedig yn briodol.

Mae medrau rhif sylfaenol llawer o ddisgyblion yn gryf. Maent yn dehongli ac yn trafod data yn dda. Mae llawer ohonynt yn cynhyrchu graffiau cywir ac yn gallu dewis siartiau priodol i gynrychioli canlyniadau gweithgareddau casglu data. Cryfderau arbennig yw medrau rhesymu rhifiadol a datrys problemau mathemategol llawer o ddisgyblion, er enghraifft wrth amcangyfrif nifer disgynyddion rhywun a aned 100 mlynedd yn ôl neu wrth arfarnu'r berthynas rhwng prisiau taith mewn tacsi a phrisiau petrol.

Mewn gwersi technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau yn addas ac yn defnyddio cronfeydd data a thaenlenni yn briodol. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau TGCh yn ddigon da ar draws y cwricwlwm.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos medrau creadigol cryf. Er enghraifft, ysgrifennant ddisgrifiadau dychmygus a gwreiddiol o gymeriadau mewn gwersi Saesneg ac yn creu mygydau trawiadol mewn celf a modelau 3D o erydiad clogwyni mewn daearyddiaeth.

Yn gyffredinol, mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 gan gynnwys Saesneg a mathemateg wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf ac mae wedi cyd-fynd â pherfformiad ysgolion tebyg, neu wedi bod yn well nag ef, dros y tair blynedd ddiweddaraf. Yn ogystal, mae perfformiad yn y sgôr pwyntiau wedi'i chapio wedi gwella'n raddol dros y pedair blynedd diwethaf. Mae perfformiad yn y dangosydd hwn wedi bod islaw perfformiad mewn ysgolion tebyg gydag amser, ond mae uwchlaw hynny yn 2017.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae perfformiad merched yn y rhan fwyaf o'r dangosyddion yng nghyfnod allweddol 4 yn gryf ac uwchlaw perfformiad merched mewn ysgolion tebyg. Mae perfformiad bechgyn hefyd yn cymharu'n dda â pherfformiad bechgyn mewn ysgolion tebyg mewn llawer o ddangosyddion.

Mae cyfran y disgyblion sy'n ennill 5 TGAU neu gymhwyster cyfwerth, neu fwy, gyda graddau A*-A, wedi gwella dros y pedair blynedd diwethaf ac mae'r gyfran yn arbennig o uchel yn 2017. Mae perfformiad yn y dangosydd hwn wedi bod uwchlaw perfformiad mewn ysgolion tebyg yn gyson dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cyfran y merched sy'n cyflawni'r dangosydd hwn yn arbennig o uchel ac yn well o lawer na pherfformiad merched mewn ysgolion tebyg.

Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer yr un grŵp o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg ym mron pob dangosydd yn 2017, ond mae hyn wedi amrywio dros gyfnod.

Fe wnaeth perfformiad yn y chweched dosbarth wella'n sylweddol yn 2017 ac mae uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg ym mron pob dangosydd. Mae perfformiad yn y dangosydd sy'n cynnwys 3 gradd Safon Uwch A*-A neu gyfwerth wedi bod yn arbennig o gryf dros y pedair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, yn y ddwy flynedd cyn 2017, nid yw perfformiad yr ysgol yn nangosyddion eraill cyfnod allweddol 5 wedi cymharu cystal â pherfformiad mewn ysgolion tebyg.

Ar ddiwedd Blwyddyn 11, mae bron pob un o'r disgyblion yn parhau mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

Yng nghyfnod allweddol 4, mae bron pob un o'r disgyblion yn cyflawni cymhwyster TGAU lefel 2 mewn Cymraeg ail iaith ac mae ychydig o ddisgyblion yn cyflawni cymhwyster TGAU mewn Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ddisgyblion yn cyflawni cymwysterau mewn Cymraeg sy'n cyd-fynd â'u gallu neu eu profiad blaenorol o'r iaith. Mae llawer o ddisgyblion yn siarad Cymraeg yn hyderus, gan ddefnyddio iaith naturiol. Mae meistrolaeth llawer o ddisgyblion ar eirfa sylfaenol yn gadarn ond mae eu gwaith ysgrifenedig yn cynnwys gormod o wallau.

## Lles ac agweddau at ddysgu: Da

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol, ac maent yn gwrtais ac yn aeddfed yn eu rhyngweithiadau â staff ac ymwelwyr â'r ysgol. Maent yn cyrraedd gwersi'n brydlon ac yn canolbwyntio'n dda. Mae llawer o ddisgyblion yn ymroddedig iawn i'w hastudiaethau ac yn awyddus i lwyddo. Maent yn dangos diddordeb gwirioneddol mewn dysgu, ac yn wydn a phenderfynol pan fydd gweithgareddau heriol yn eu hwynebu. Mae gan lawer ohonynt fedrau dysgu annibynnol cryf. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio'n gynhyrchiol mewn grwpiau a pharau ac yn eu cefnogi ei gilydd yn effeithiol, er enghraifft pan fydd disgyblion yn arwain grwpiau ac yn arddangos medrau mewn gwersi addysg gorfforol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau'r ysgol, yn gwerthfawrogi amrywiaeth poblogaeth yr ysgol ac yn dangos lefel uchel o barch a gofal tuag at eu cymheiriaid. Maent yn falch o ethos cynhwysol yr ysgol. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn gwybod ble i fynd i gael help. Teimlant eu bod yn cael cefnogaeth dda gan athrawon a staff cymorth, a bod yr ysgol yn delio'n dda â'r enghreifftiau prin iawn o fwlio.

Mae llawer o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ffyrdd iach o fyw ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut i fwyta ac yfed yn iach. Maent yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau corfforol, gan gynnwys samba, dringo a chaiacio. Mae mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu medrau bywyd defnyddiol ac yn cyfrannu'n fuddiol at eu cymuned leol, er enghraifft trwy gystadlu yn her y 3 Chopa i godi arian i Glwb Ieuenctid Môn ar gyfer pobl ifanc ag awtistiaeth, a chodi arian i Dŷ Gobaith.

Mae disgyblion yn datblygu'u medrau arwain a'u medrau cymdeithasol yn dda trwy ymgymryd â rolau sy'n cynnwys mentoriaid cymheiriaid, cyfeillion a Llysgenhadon Gwrth-fwlio, a thrwy arwain grwpiau fel y clwb eco a'r cyngor ysgol. Mae'r cyngor ysgol yn gwneud cyfraniad priodol at fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae wedi dylanwadu ar newidiadau i'r polisi asesu a bu'n allweddol o ran gosod meinciau picnic ar dir yr ysgol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu: Da

Yn gyffredinol, mae ansawdd yr addysgu yn dda. Mae gan bron pob un o'r athrawon berthnasoedd gwaith cryf â'u dosbarthiadau ac maent yn cynnig amgylchedd dysgu diogel a chadarnhaol, sy'n galluogi cynnydd cryf. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos disgwyliadau uchel yn gyson o ran ymddygiad disgyblion, eu hymgysylltiad a safon y gwaith y gall disgyblion ei gyflawni.

Yn aml, mae addysgu'n gyson effeithiol. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn cynllunio cyfresi o weithgareddau beichus yn ofalus i sicrhau datblygiad cynyddol ym medrau, dealltwriaeth a gwybodaeth disgyblion. Maent yn defnyddio adnoddau a baratowyd yn ofalus ac amrywiaeth eang o ddulliau sy'n hoelio sylw disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae athrawon yn dod â dysgu'n fyw trwy ofyn i ddisgyblion greu modelau DNA gan ddefnyddio melysion. Mae llawer o athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n cyfateb yn agos i alluoedd a diddordebau disgyblion, gan gynnig cymorth gwerthfawr ar gyfer dysgu'r disgyblion, lle bo'r angen, ac ymestyn y mwyaf abl. Mewn ychydig wersi, mae athrawon yn datblygu medrau dwyieithog disgyblion ochr yn ochr â'u dealltwriaeth o'r pwnc yn effeithiol.

Cryfder nodedig llawer o wersi yw'r ffordd y mae athrawon yn llwyddo i ddatblygu medrau datrys problemau disgyblion ac annibyniaeth yn eu dysgu. Yn ogystal, mae'r athrawon hyn yn defnyddio sefyllfaoedd bywyd go iawn a phrofiadau personol yn effeithiol i ennyn diddordeb disgyblion a chryfhau eu dealltwriaeth.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio technegau holi effeithiol i ddatblygu meddwl disgyblion ac asesu eu dealltwriaeth. Mae'r athrawon hyn yn monitro cynnydd disgyblion yn ofalus ac yn addasu gweithgareddau'n fedrus i fynd i'r afael ag unrhyw gamsyniadau. Fodd bynnag, ambell waith, nid yw athrawon yn defnyddio holi yn ddigon da i herio meddwl disgyblion neu gynnwys y dosbarth cyfan mewn trafodaeth. Mae llawer o athrawon yn rhoi adborth gwerthfawr i ddisgyblion ar ansawdd eu gwaith a safon eu medrau llythrennedd a rhifedd. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn gwneud gwelliannau buddiol i'w gwaith yn sgil eu sylwadau. O bryd i'w gilydd, nid yw athrawon yn gwneud yn siŵr bod disgyblion yn ymateb yn ddigon da i'w harweiniad.

Mae'r cwricwlwm yn bodloni anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol. Yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag ysgolion a cholegau lleol i gynnig amrywiaeth eang o gyrsiau galwedigaethol ac academaidd. Mae'r ysgol yn gweithio'n agos â'i hysgolion cynradd partner i sicrhau bod dysgu cyfnod allweddol 3 yn adeiladu'n llwyddiannus ar gyfnodau allweddol blaenorol.

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol. Mae hyn yn cynnwys ymweliadau lleol a thramor, timau chwaraeon ac amrywiaeth o glybiau, er enghraifft y clybiau ar gyfer Mandarin, daeareg a gwyddoniaeth. Yn ogystal, mae'r ysgol yn cefnogi datblygiad medrau cymdeithasol a bywyd disgyblion yn dda trwy weithgareddau fel cynllun Gwobr Dug Caeredin a'r rhaglen mentora cymheiriaid ar gyfer rhifedd.

Mae gan yr ysgol ddarpariaeth effeithiol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o adrannau yn cynllunio amrywiaeth o weithgareddau buddiol i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion ochr yn ochr â'u gwybodaeth am bwnc. Yn ogystal, mae pynciau fel daearyddiaeth a gwyddoniaeth yn cefnogi datblygiad medrau rhifedd disgyblion yn effeithiol trwy ddull cydlynus ar gyfer adeiladu a dehongli graffiau, er enghraifft. Mae'r ysgol yn monitro cynnydd disgyblion o ran datblygu eu medrau yn ofalus ac yn cynllunio ymyriadau gwerthfawr i'r disgyblion â medrau gwannach. Mae ychydig bynciau heblaw am TGCh yn rhoi cyfleoedd addas i ddisgyblion ymarfer eu medrau TGCh sylfaenol. Fodd bynnag, megis dechrau datblygu y mae cynllunio ar gyfer gwella medrau TGCh disgyblion yn gynyddol ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn cefnogi cynnydd disgyblion mwy abl a thalentog yn dda. Mae'n cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau sy'n cyfoethogi eu profiadau ac yn ehangu eu gorwelion. Mae hyn yn cynnwys 'dosbarthiadau meistr' yn y brifysgol leol a chystadlaethau ysgrifennu creadigol a pheirianneg. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau i'r disgyblion hyn, er enghraifft y gyfran sy'n ennill y graddau uchaf yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r ysgol wedi cymryd camau priodol yn ddiweddar i gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion. Fodd bynnag, mae lleiafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 4 nad ydynt yn dilyn cwrs Cymraeg sy'n briodol i'w profiad addysgol blaenorol o'r iaith. Mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth werthfawr o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o hanes a diwylliant Cymru. Mae hyn yn cynnwys teithiau preswyl poblogaidd i Lan-llyn a'r 'Cymraegathon', sef diwrnod thema i hybu a dathlu defnyddio'r Gymraeg. Yn ogystal, mae disgyblion yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ethos Cymreig yr ysgol trwy waith grwpiau fel 'Camau Mawr' a 'Chamau Bach'.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae ansawdd y gofal, cymorth ac arweiniad a ddarperir yn Ysgol Friars yn gryf. Mae gan yr ysgol system olrhain drylwyr ac effeithiol, sy'n caniatáu i staff fonitro cynnydd academaidd, presenoldeb ac ymddygiad yn fanwl ar draws pob cyfnod allweddol. Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i nodi disgyblion y mae angen cymorth arnynt a chynllunio ymyriadau effeithiol. O ganlyniad, mae llawer o'r disgyblion hyn yn rhagori ar y cynnydd a ddisgwylir mewn medrau darllen, sillafu a rhif.

Mae polisi clir ar ymddygiad, sy'n cael ei ddeall yn dda a'i gymhwyso'n gyson gan y rhan fwyaf o'r staff. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar safonau ymddygiad. Mae'r ysgol yn gweithio'n dda gydag amrywiaeth o asiantaethau allanol a rhieni i gefnogi anghenion cymdeithasol, ymddygiadol ac emosiynol disgyblion.

Mae darpariaeth gadarn i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae'r ysgol yn addasu'r ddarpariaeth yn dda i fodloni anghenion dysgu a chorfforol disgyblion unigol. Mae'r ysgol yn gweithio gyda'r disgyblion hyn a'u rhieni i osod targedau addas a monitro cynnydd disgyblion yn fanwl. Mae cynorthwywyr cymorth dysgu yn rhoi help gwerthfawr i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn gwersi a grwpiau ymyrraeth. Nodwedd gref o'r cymorth hwn yw'r wybodaeth mae staff wedi'i datblygu am anghenion disgyblion unigol penodol a'u gallu i addasu'r dysgu yn y ffordd orau i'r disgybl.

Mae proses bontio gynhwysfawr, wedi'i chynllunio'n dda, yn helpu disgyblion i ymgynefino ym Mlwyddyn 7 yn gyflym. Mae hyn yn cynnwys grŵp anogaeth gwerthfawr i gefnogi disgyblion y nodwyd eu bod yn agored i niwed.

Mae adroddiadau blynyddol ac interim yn rhoi gwybodaeth dda i rieni am gynnydd eu plentyn yn yr ysgol. Maent yn cynnwys strategaethau defnyddiol ar gyfer gwella a thargedau priodol sy'n benodol i bwnc. Mae'r ysgol yn rhoi gwybodaeth ac arweiniad gwerthfawr ynghylch opsiynau a gyrfaoedd trwy amrywiaeth o weithgareddau fel digwyddiad 'Sbotolau ar Fyd Gwaith' a'r ffair yrfaoedd flynyddol. Mae'r digwyddiadau hyn yn cefnogi disgyblion yn effeithiol wrth wneud penderfyniadau gwybodus am ddewisiadau yn y dyfodol.

Mae'r ysgol yn cynnig darpariaeth briodol ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion trwy wasanaethau a rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol ddefnyddiol. Mae gweithgareddau cyfoethogi, fel y clwb roboteg, yn datblygu medrau cymdeithasol a chreadigol disgyblion yn dda. Mae disgyblion y chweched dosbarth yn cyfrannu'n dda at y gymuned leol trwy roi parti Nadolig i'r henoed.

Mae rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr a gwersi addysg gorfforol yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o sut i wneud dewisiadau ffordd o fyw iach a chadarnhaol yn effeithiol. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hybu bwyta ac yfed yn iach ac mae wedi sefydlu Grŵp Gweithredu ar Faeth yn yr Ysgol, sy'n cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion bwyta'n iach yn yr ysgol.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth effeithiol wedi llwyddo i wella deilliannau i ddisgyblion. Mae hyn wedi arwain, er enghraifft, at berfformiad cryf yn y rhan fwyaf o ddangosyddion cyfnod allweddol pedwar a gwelliannau mewn presenoldeb dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer gwella'r ysgol, sy'n cael ei chyfleu'n effeithiol a'i deall yn dda gan yr holl staff. Gyda chefnogaeth ei uwch dîm arwain, mae wedi llwyddo i sefydlu diwylliant o ddisgwyliadau uchel a ffocws cryf ar wneud y mwyaf o botensial pob disgybl.

Mae rolau a chyfrifoldebau uwch arweinwyr yn gytbwys, wedi'u diffinio'n glir ac wedi'u deall gan bawb. Mae penodiadau dros dro i'r uwch dîm wedi cryfhau'r uwch arweinyddiaeth ac annog gwelliannau yn effeithiol, er enghraifft gwella cyrhaeddiad disgyblion agored i niwed. Mae arweinwyr yn gosod targedau uchelgeisiol i'w hunain ac yn monitro cynnydd o ran y targedau hyn yn fanwl. Ar y cyfan, mae trefniadau rheoli llinell yn gadarn ac yn sicrhau bod uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn cael eu dwyn i gyfrif yn llawn am eu rolau. Mae calendr trefnus o weithgareddau rheoli llinell, sy'n canolbwyntio'n bendant ar gynnydd disgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn gadarn. Mae gan amcanion feini prawf llwyddiant clir a mesuradwy sy'n canolbwyntio'n dda ar godi safonau a gwella addysgu. Mae'r amcanion hyn yn cysylltu'n agos â blaenoriaethau'r ysgol gyfan a blaenoriaethau adrannol, ynghyd ag uchelgeisiau a diddordebau staff unigol. Mae'r ysgol wedi datblygu 'matrics perfformio' defnyddiol, sy'n defnyddio amrywiaeth eang o dystiolaeth i gynhyrchu arfarniad cynhwysfawr o gynnydd staff o ran eu targedau. Mae'r ysgol yn mynd i'r afael â thanberfformio yn drylwyr ar bob lefel.

Mae gan y rhan fwyaf o arweinwyr canol ddealltwriaeth gadarn o'u rôl a chynigiant arweinyddiaeth effeithiol. Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn meddu ar ddealltwriaeth drylwyr o'r rhan fwyaf o agweddau ar ddata perfformiad a defnyddiant hyn yn dda i ddadansoddi perfformiad disgyblion ac amlygu meysydd y mae angen eu gwella.

Mae gan yr ysgol gylch o weithgareddau hunanarfarnu effeithiol a sefydledig. Mae'n defnyddio amrywiaeth eang o dystiolaeth uniongyrchol o arsylwi gwersi, craffu ar waith disgyblion a barn disgyblion, rhieni a'r staff. Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn defnyddio'r dystiolaeth hon, yn enwedig data, yn effeithiol i asesu perfformiad yn eu meysydd cyfrifoldeb.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn ddogfen ddi-flewyn-ar-dafod, sy'n nodi'r rhan fwyaf o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Fodd bynnag, nid yw'n arfarnu ychydig agweddau pwysig iawn ar waith yr ysgol yn ddigon da, fel perfformiad disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r rhan fwyaf o adroddiadau hunanarfarnu adrannol yn gynhwysfawr ac yn nodi meysydd pwysig i'w datblygu.

Ar y cyfan, mae gan yr ysgol brosesau trylwyr ac effeithiol i arfarnu ansawdd ac effaith addysgu ar draws yr ysgol. Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn defnyddio arsylwadau gwersi yn dda i arfarnu cynnydd disgyblion a chefnogi datblygiad athrawon unigol. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd a chysondeb addysgu ar draws yr ysgol. Mae arweinwyr ar bob lefel yn craffu ar lyfrau disgyblion yn rheolaidd i fonitro effaith asesu. Fodd bynnag, yn y gweithgareddau hyn, nid yw arweinwyr yn canolbwyntio digon ar ddatblygu medrau disgyblion.

Yn gyffredinol, mae gan yr ysgol systemau priodol i gasglu barn disgyblion. Mae llawer o feysydd pwnc yn gwneud defnydd arbennig o werth chweil o arolygon disgyblion i addasu ac ymestyn eu darpariaeth. Yn ogystal, mae grwpiau dynodedig o ddisgyblion, er enghraifft 'hacwyr y cwricwlwm' a 'llysgenhadon mathemateg', yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at ddatblygu addysgu a dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol yn ystyried barn disgyblion yn ddigonol ynghylch agweddau eraill ar fywyd yr ysgol.

Mae cynllun datblygu'r ysgol gyfan yn nodi blaenoriaethau strategol yr ysgol yn glir ac mae ganddo gysylltiad agos â chanfyddiadau hunanarfarnu. Mae'n cynnwys amrywiaeth o gamau gweithredu addas, sydd wedi'u costio'n briodol ac sydd ag amserlenni realistig. Fodd bynnag, mewn ychydig fannau, nid yw'r cynllun yn ddigon clir ynghylch sut caiff cynnydd o ran targedau ei fonitro. Mae cynlluniau datblygu adrannol yn alinio'n dda â blaenoriaethau'r ysgol gyfan ac yn cyd-fynd yn dda â'r meysydd i'w gwella a amlygwyd trwy hunanarfarnu adrannol. Fodd bynnag, nid yw'r cynlluniau hyn yn nodi strategaethau penodol ar gyfer gwella yn ddigon manwl.

Mae llywodraethwyr yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Maent yn rhoi lefel addas o her a chymorth i'r ysgol. Fodd bynnag, gan nad ydynt yn cyfarfod yn rheolaidd, nid yw gwaith pwyllgorau yn cefnogi gwaith y corff llywodraethol llawn yn ddigon da yn gyson.

Mae gan yr ysgol amrywiaeth o strategaethau effeithiol i rannu arfer dda ymhlith staff, fel sesiynau hyfforddi, rhwydweithiau proffesiynol ac arsylwadau cymheiriaid. Mae'r gweithgareddau hyn wedi llwyddo i hybu addysgu effeithiol ar draws yr ysgol. Mae llawer o staff wedi cymryd rhan mewn gweithio rhwng ysgolion, sydd wedi cael effaith gryf ar ddarpariaeth yr ysgol ei hun, ynghyd â chynnig cymorth gwerthfawr i ysgolion eraill.

Mae'r pennaeth a'r bwrsar yn monitro gwariant yr ysgol yn drylwyr i sicrhau bod gwariant yn cyfateb yn fanwl i flaenoriaethau gwella'r ysgol. Mae'r ysgol yn

defnyddio cyllid grant yn effeithiol. Er enghraifft, mae ei defnydd o’r Grant Datblygu Disgyblion wedi sicrhau deilliannau llawer gwell i ddisgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Mae staff yn gymwys iawn i gyflawni eu rolau a chânt eu defnyddio’n ofalus ac yn effeithiol. Mae staff addysgu a staff cymorth yn cydweithio’n llwyddiannus i gefnogi disgyblion a datblygu darpariaeth yr ysgol. Yn gyffredinol, mae’r ysgol yn gwneud y defnydd gorau o’r adeiladau sydd ar gael iddi i ddarparu amgylchedd gweithio diogel, ysgogol a chadarnhaol. Fodd bynnag, er gwaethaf y gwelliannau addas diweddar y mae’r ysgol wedi’u gwneud i doiledau’r disgyblion, nid oes nifer digonol o doiledau ar gyfer nifer y disgyblion yn yr ysgol o hyd.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 25/01/2018